

Hysbysiad Hawlfraint

Dyma atgoffa staff a myfyrwyr y Brifysgol hwn fod hawlfraint yn gymwys ar y darn hwn ac ar y gwaith y mae'n dod ohono. Gwnaed y Copi Digidol hwn yn unol â thelerau Trwydded yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint, sy'n golygu eich bod yn cael:

- Gweld a lawr lwytho copi
- Argraffu copi

Mae'r Copi Digidol hwn ac unrhyw gopi digidol neu argraffedig a roddir ichi neu a wnaed gennych yn ôl telerau'r Drwydded hon i'w ddefnyddio yng nghyd-destun y modiwl hwn neu'r cwrs astudio hwn. Cewch gadw'r copïau hyn ar ddiwedd y cwrs, ond dim ond at eich defnydd eich hun.

Rhaid i bob copi (gan gynnwys copïau electronig) gynnwys yr Hysbysiad Hawlfraint hwn a rhaid iddynt gael eu dinistrio neu eu dileu os bydd y Brifysgol yn gofyn ichi wneud hynny.

Ac eithrio'r hyn sy'n dderbyniol yn ôl darpariaethau cyfraith hawlfraint, ni cheir copïo, cadw na dosbarthu (gan gynnwys dosbarthu drwy e-bost) heb ganiatâd y sawl sy'n dal yr hawlfraint.

Mae gan yr awdur (ymadrodd sy'n cynnwys arlunydd a'r sawl sy'n creu gweithiau gweledol eraill) hawliau moesol ar y gwaith ac ni chaiff staff na myfyrwyr achosi na chaniatáu i'r gwaith gael ei anffurfio, ei lurgunio na'i addasu fel arall, na'i drin mewn unrhyw fodd difriol arall, a fyddai'n gwneud cam ag anrhydedd neu enw da'r awdur.

Teitl y darn: **Gwragedd**

Enw'r Awdur: **Lloyd, N. ac Owen, M.E**

Teitl/Awdur/Argraffiad y llyfr (os yw'n berthnasol): **Drych yr Oesoedd Canol. Lloyd, N. ac Owen, M.E.**

Enw Crëwr Gwaith Gweledol neu

gydnabyddiaeth arall (os yw'n berthnasol):

Manylion cyfnodolyn -

teitl/Cyrol/Blwyddyn (os yw'n berthnasol):

Cyhoeddwr: **Gwasg Prifysgol Cymru**

Tudalennau a sganiwyd: **96 - 102**

Cwrs Astudio (Enw a rhif y modiwl): **Hanes y Ferch yn yr Oesoedd Canol
CYCS7005C**

Enw'r sawl a awdurdododd
y sganio:

E. L. Harris

Dyddiad y rhoddwyd awdurdod: 08.08.13

Moodle/Powerpoint

- (i) uniad trwy rodd cenedl lle y rhoddid y ferch i ŵr yn ffurfiol gan ei pherthnasau o fewn y bedwaredd ach. Gwelir enghraifft o'r arfer hon yn hanes CULHWCH AC OLWEN (WM 478), ac i raddau llai yn hanes Branwen (I. Williams, 1930: 30).
- (ii) uniad trwy lathludd lle yr âi'r ferch gyda gŵr heb ganiatâd ffurfiol ei theulu.
- (iii) uniad lle y treisid merch. Cymharer hanes Goewin lle-y cyfeiria ati ei hunan fel gwraig ar ôl cael ei threisio gan Gilfaethwy (I. Williams, 1930: 74).

Golygai pob un o'r uniadau hyn broses o gyfnwied eiddo. Telid 'amobr' neu 'gobr' i arglwydd y ferch, penodid maint ei 'hegwedd', sef yr eiddo y byddai'n mynd ag ef gyda hi pe torrid y briodas o fewn saith mlynedd; ac yn drydydd telid 'cowyll' iddi gan ei gŵr drannoeth y briodas. Pe torrid y briodas ar ôl saith mlynedd rhennid eiddo symudol y cartref yn ddau hanner rhwng y gŵr a'r wraig. Y mae'r rhestr o eiddo yn y llyfrau cyfraith yn awgrymu natur cynnwys cartref Cymreig (69) yn ystod yr Oesoedd Canol ac yn taflu goleuni ar waith beunyddiol y gŵr a'r wraig. Ceir cyfeiriadau gogleisiol eraill, fel y rheol ynglŷn â rhannu dillad y gwely sydd yn awgrymu bod rhyw aura arbennig yn perthyn i'r gwely priodasol (Rees%Rees, 1951/2: 74-6). Cyffyrddir â phynciau perthnasol eraill yn y traethawd, fel hawl gwraig i gael cynhaliaeth i'w phlentyn gan ei dad; ac yn rhedeg trwy'r traethawd i gyd ceir rheolau sydd yn rhoi cip ar y pwyslais a roddid ar ddiweirdeb merch cyn ac ar ôl iddi briodi, y cywilydd a ddalai yn sgil godineb neu anniweirdeb a'r iawndal a ddisgwylid gan odinebwr (Jenkins/Owen, 1980(1): 46-54).

Mewn mannau eraill yn y llyfrau cyfraith, fel yn y ddau ddarn sy'n dilyn o LLYFR IORWERTH (A. Rh. Wiliam, 1960: 29, 25) dysgwn ragor am safle a statws y ferch. Dibynnai i raddau helaeth iawn ar statws y gwŷr yr oedd yn perthyn iddynt trwy gystlwn gwaed neu rwymyn priodas. Adlewyrchir y ddibyniaeth hon gan fesur ei sarhaed a'i galanas. Yr oedd galanas merch cyn ac ar ôl priodi gyfwerth â hanner galanas ei brawd. Yr oedd ei sarhaed gyfwerth â hanner sarhaed ei brawd cyn priodi ac â thraean sarhaed ei gŵr ar ôl priodi. Adlewyrchir statws dibynnol y ferch ymhellach gan y gyfres o reolau a geir yn y triawd sydd yn ymwneud â hawliau gwagedd o statws amrywiol i anrhegu. Yr oedd haelioni yn

35. Gwagedd

Ffynhonnell: (i) LLYFR BLEGYWRYD, S. J. Williams, J. E. Powell, 1942: 60-6.

(ii) LLYFR IORWERTH, A. Rh. Wiliam, 1960: 29.

(iii) *ibid*, 25.

Un o draethodau amlycaf y llyfrau cyfraith ydyw'r traethawd a elwir yn Gyfraith y Gwagedd (Jenkins/Owen, 1980(1)). Y mae'r traethawd yn ymwneud â hawliau'r gŵr a'r wraig mewn priodas a'r hyn a ddigwyddai i'w heiddo pe ymwahanent â'i gilydd. Rhoddir fframwaith i'r traethawd gan ymdriniaeth â'r tri math o uniad rhywiol a gydnabyddid gan gyfraith Cymru yn nhestunau cyfraith y XIII ganrif sef:

*rhinwedd a folid mewn rhiaid ac mewn gwreigdda yn ôl GRAM-
ADEGAU'R PENCEIRDDIAID (Williams/Jones, 1934: 56). Yn ôl y
llyfrau cyfraith yr oedd gan y frenhines yr hawl i roi y traean a
ddelai iddi o 'ddofod' y brenin: nid oedd gan wraig y taeog ond yr
hawl i roi ei gogor ar fenthyl. Y mae'r frawddeg yn CULHWCH AC
OLWEN (WM 452) 'recdouyd ynt y gwraged weithon' yn awgrymu
mai datblygiad cymharol ddiweddar yn y gymdeithas Gymreig oedd
hawl gwraig i anrhegu.*



(i) Or kymer gwr wreic o rod kenedyl, ac os gat kyn pen seith
mlyned, talet idi teir punt yn y hegwedi, os merch breyr vyd, punt
a hanher yn y chowyll, whevgeint yn y hamobyr; os merch tayawc
vyd, punt a hanher yn y hegwedi, a whevgeint yn y chowyll, a
phedeir ar hugeint yn y hamobyr. Os gwedy y seith mlyned y gat,
bit ran deu hanher yrydunt, onyt breint a dyry ragor y'r gwr;
deuparth y plant a daw y'r gwr—yr hynaf a'r ieuaf—a'r trayan y'r
vam. Os agheu a'e gwahan, bit ran deu hanher yrydunt o pob peth.

Sarhaet gwreic wryawc, herwyd breint y gwr y diwygir idi, nyt
10 amgen herwyd breint y gwr y rodher idaw.

Gwr a eill yn ryd gadu y wreic, or gwna hitheu yn honheit yr gwr
arall; ac ny cheiff hi dim o iawn eithyr y tri pheth ny dygir rac
gwreic, a'r gorderch a tal y sarhaet y'r gwr kyfreithawl.

Or dyweit gwreic eir kewilydyus wrth y gwr, talet y'r gwr teir bu
camlwrw, kanys y harglwyd yw, neu trawet hi a gwyalen kyhyt a'e
gupyt tri dyrnawt lle y mynho, eithyr y pen. Or maed gwr y wreic
heb achaws, talet y sarhaet idi herwyd y breint.

Or edeu gwreic wely y gwr heb achaws, talet idaw teir bu
camlwrw kyn y chymryt attaw trachefyn.

Or ysgar gwr a'e wreic gyfreithawl a hi yn veichawc, o'r dyd yd 20
yscarhont y kyfrifir idi amser y vagu yr etiued a uo yndi yna, kanys
herwyd y gyfreith hon blwydyn a hanher y mac y vam ef, a gwedy
hynny nys mac dim. Os twyllvorwyn a geffir heb wat, y chrys a
torrir tu rocdi a'e thrachefyn, ac odynd y gwr a dyry idi enderic
gwedy iraw y loscwrn, ac or dichawn hi y attal herwyd y loscwrn,
kymeret yn y hegwedi.

Or lledir gwr gwreigawc, y sarhaet a telir yn gyntaf, ac odynd y
werth; trayan y sarhaet hagen a geiff y wreic.

Or a merch breyr gan wr yn llathrut o'e bod, pan atter, sef vyd y
hegwedi, wech eidon kyhyt eu kyrn ac eu hyscyfarn. Y verch 30
tayawc o'r kyfryw dadyl, tri eidon kyfoet a'r rei hynny a telir.

.....

Gwreic a geiff y gan tat y mab yr y vagu kyhyt ac y dywespwyt
vry, peis a talho pedeir keinhawc, a buch dewisseit, a phadell a
talho keinhawc a dimei, a charreit o'r yt goreu a tyfho ar tir y tat; a
hynny a perthyn y'r tayogeu.

Mab bonhedic a dylyir y vagu val hyn: mam y mab gyssefin a'e
hymduc naw mis yn y chroth, a thri mis gwedy ganher hi a'e mac, a
hynny yn lle blwydyn idi; odynd y tat a dyly keissaw idaw y holl
gyfreideu; yn gyntaf y dyry dauat a'e chnuf a'e hoen genti; ac
odynd gweren neu geinhawc, a phadell hayarn neu pedeir 40
keinhawc kyfreith, a muneit o wenith y wneuthur iwt idaw, a
charreit deu ychen o gynnut, a dwy gyfelin o vrethyn gwyn neu
vrith ar y mab, a buch vlith a'e llo, a thri charreit o wenith a heid a
cheirch, a thri charreit o gynnut: os myn y vam, hi a'e keiff oll;
onys myn, rother y arall.

Or a morwyn wry yn llathrut heb gyghor y chenedyl, y that a
dichawn y hattwyn rac y gwr o'e hanuod, ac ny chyll dim o'e iawn y
gan y neb a'e duc; ac ny thal y that y hamobyr y harglwyd. Or a
gwreic hagen yn llathrut o anuod y chenedyl, ny eill neb y hattwyn
rac y gwr o'e hanuod; o'r lle y bo y hatlam y telir y hamobyr. 50

Gwreic a dyccer lathrut ac ny wnel amot yg gwyd tyston ar gaffel
iawn o gwbyl, ny cheiff herwyd gwyr Gwyned onyt tri eidon;
herwyd gwyr y Deheu hi a gahei gynt y hegwedi yn hollawl, megys
gwreic a rodei y chenedyl.

Y neb a dycco morwyn yn llathrut, a dywedut o'r vorwyn, 'Beth
a rody ti ymi?' a dywedut ohonaw ef, 'Mi a rodaf it y veint hon,' a
chadarnhau hynny ar y gret ac vch creireu; os gwatta gwedy hynny,

kymeret hi y creireu a thyget idaw adaw y veint hon; ac velly ny eill ef dim yn y herbyn, kanys credadwy yw y thystolyaeth hi ehunan
60 yn y lle hwnnw.

Y neb a dycco treis ar wreic, y hamobyr a'e dirwy a tal y'r arglwyd; ac y'r wreic y tal y sarhaet a'e hegvedi a'e dylsyrwyd. Os gwadu a vyn y gwr, ac os kadarnha y wreic yn y erbyn, Kymeret hi gala y gwr yn y llaw asseu a thyget hi ry dwyn treis ohonaw ef erni hi; ac velly ny chyll hi dim o'e iawn. Y neb a watto treissaw gwreic, rodet lw deg wyr a deu vgeint, neu dirwy treis. Nyt oes yg kyfreith Hywel Da yspadu gwr yr treissaw gwreic.

O tri achaws ny chyll gwreic y hegvedi kyt adawho y gwr: o glafri, ac eisseu kyt, a dryc anadyl. Teir gweith y keiff gwreic y
70 hwynebwerth: kyntaf wheugeint; yr eil weith punt; y tryded weith y dichawn adaw y gwr a mynet a'e holl dylhet genti; ac os diodef hi dros y tryded weith, ny cheiff hi wynebwerth.

Oni wna morwyn a vynho o'e chowyll kyn y chyfot y bore y wrth y gwr, ygkyt y byd yrydunt o hynny allan.

Or rodir morwyn aeduet y wr, ac or dyweit ynteu nat oed uorwyn hi, tyget y vorwyn ar y phymhet o'r dynnyon nessaf idi, nyt amgen hi a'e that a'e mam a'e brawt a'e chwaer, vot yn gelwyd hynny, a'e dyuot hitheu yn vorwyn attaw ef, or oed aeduet hi o vronneu a chedor a dyuot teithi oetran gwreic idi. Os tewi a wna ef
80 yn gyntaf, a bot genti yr eilweith, a chyscu gyt a hi hyt y bore, kyt as kaffei ef yn wreic y weith gyntaf, ny dichawn ef dwyn dim o iawn morwyn rocdi. Os yn y lle, val y gwyppo ef hynny, y kychwyn ar y neithawrwy'r y dywedut hynny, ony watta hi yn y erbyn ef, a thystu ohonaw ynteu hynny y'r gwyr, ny cheiff hi dim o iawn.

Tri llw a dyry gwreic y wr: pan enllipper gyntaf, llw seith wraged; ar yr eil enllib, llw pedeir gwaged ar dec; ar y trydyd enllib, llw deg gwaged a deu vgeint, o byd neb ryw hyspysrwyd ar yr enllib.

Or byd rodyeit ar wreic y wr, bit y gwr dan y gwadawl hyt ympen
90 y seith mlyned; ac o cheiff hi teir nos o'r seithuet vlwydyn, hanher y holl da a geiff y wreic pan yscarhont. Ac val hyn y renhir y da: y gwr a geiff y moch, a'r wreic y deueit. Odyna y wreic a ran a'r gwr a dewis, eithyr y dotrefyn a renhir val hyn: y llaeth-lestri oll y'r wreic onyt vn payol, a'r dyscleu oll onyt vn dyscyl; a'r vn payol a'r vn dyscyl a geiff y gwr; y gwr heuyt a geiff y karr, ac vn o'r gwedeu, a holl lestri y llyn, a'r kerwyneu oll, ac a uo danunt o'r dillat gwely; a'r wreic bieu a uo arnunt o'r dillat gwely. Os y gwr ar hynt yna a

gymer gwreic arall, ef a dyly anuon dillat y gwely kyntaf a'r wreic a wrthodet. Y gwr a geiff y gallawr, a'r tappin neu y bryccan, a'r gobennyd, a'r cwllyt, a'r uwell gynnud, a'r taradyr, a'r ebill
100 taradyr, a'r pentan hayarn, a'r crymaneu oll eithyr vn, a'r gradell. Y wreic bieu y trybed, a'r padell, a'r vwell lydan, a'r gogyr, a'r swch, a'r vn cryman, y llin a'r llinat, y gwlan, a'r tlysseu, eithyr eur ac aryant — y rei hynny, or bydant, yn deu hanher y renhir yrydunt; ac velly y gweeu llin a'r gwlan yn deu hanher y renhir. Y gwr a geiff yr yscubawr, a'r yt a uo ar y dayar ac yn y dayar, a'r ieir, a'r gath; or byd ereill, y wreic a'e keiff. Y wreic a geiff y kic yn heli a heb halen, ac velly am y kaws yn heli a heb halen. Y gwr bieu y kic a'r kaws drychafedic oll, a'r llestreit bwlch o'r emenyn, a'r backyneu bwlch, a'r kaws bwlch. A'r wreic a geiff o'r blawt
110 kymeint ac a allo y dwyn rwg y dwylaw wrth pen y deu lin o'r gell y'r ty. Pob vn a geiff y wiscoed ehunan yn gwbyl, eithyr y mentyll a renhir.

Or gat gwr y wreic yn agkyfreithawl a dwyn arall attaw, y wreic wrthot a dyly trigyaw yn y thy hyt ympen y nawuetdyd. Ac or gollygir yna hi y wrth y gwr yn hollawl, pob peth o'r eidi hi a dyly mynet yn gyntaf o'r ty; a hitheu yn diwethaf yn ol y holl da aet o'r ty. Ac odyna gan dwyn y llall ef a dyly rodi dylstawt y'r wreic kyntaf, kany dyly vn gwr dwy wraged o gyfreith.

Pwy bynhac a atto y wreic ac a uo eduar gantaw y gadu, a hitheu
120 gwedy y rodi y wr arall, os gordiwed y gwr kyntaf a'r neill troet y mywn y gwely a'r llall y maes, y gwr kyntaf o gyfreith a'e keiff.

Or gwatta gwreic y godineb, rodet lw deg wraged a deu vgeint; ac velly y gwr a watto, llw deg wyr a deu vgeint a dyry. Ac am y tri chadarn enllib y rodir y reitheu hyn.

Or byd y wreic achaws dybryt gyt a gwr arall, ae o gussan ae o ouyssyaw ae o ymrein, y gwr a dichawn y gwrthot, a hi a dyly colli y holl dylhet o rodi cussan heb vn o'r deu eraill. Or kyttya gwr a gwreic gwr arall, talet idaw y sarhaet dan y hardyrchafel vn weith, kanys o genedyl elynyaeth yw. Dros ovysyaw y telir sarhaet heb
130 drychafel. Dros gussan trayan y sarhaet a uyd eisseu, kany bu weithret cwbyl yrydunt, nac o twyllofeint idi na phy wed bynhac y rodet y cussan. Y neb a gussano gwreic gwr arall, talet petwared ran y sarhaet; ac velly o'r gofysyaw, onyt y gware yr hwn a elwir gware raffan, neu yg kyfedach, neu pan del dyn o pell. Y neb a wnel cwbyl weithret, cwbyl sarhaet a tal.

(ii) Gureyc e brenhyn a eyll rody hep y ganhyat traean deouot

a del e gan e brenhyn. Gwreyc ucheluur a eyll rody e mantell a'e chrys a'e hesgydyeu a'e penllyeyn a'e buet a'e dyaut a chraun e
140 chell, a benfygyau e holl deodreuen. Gureyc taeauc ny eyll rody
namen e penguuch na benfygyau namen e gogyr, a henne mal e
klewer e llef e ar e tom o'e duen adref.

(iii) Sarhaet gureyc vryavc, traean sarhaet e gur: ony byd
guryauc, hanner sarhaet e braut. E galanas, na guedu na guryauc,
hanner galanas e braut.